24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies
Cadeirydd Awdurdod Tán Ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 OJJ

**Reference:** 648A2016

**Date issued:** Tachwedd 2016

Annwyl Gynghorydd Lloyd Davies

# Llythyr Archwilio Blynyddol – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 2015-16

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau.

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- sefydlu systemau rheoli mewnol i sicrhau bod trafodion ariannol yn rheolaidd ac yn gyfreithlon a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifo cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifo;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifo yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 27 Medi 2016 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion ariannol yr Awdurdod a’r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Adroddwyd wrth aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o archwiliad y cyfrifon ar 12 Medi 2016 a hefyd wrth aelodau’r Awdurdod Tân ar 19 Medi drwy fy *Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol.* Y materion archwilio pwysicaf oedd:

- Roedd nifer o faterion sylweddol yn ymwneud â chynnal a chadw’r gofrestr asedau. Yn neilltuol, mae rhy ychydig o fanylion ar yr asedau unigol a ddosbarthwyd fel offer gweithredol a TG. At hynny, mae angen cryfhau’r wybodaeth ariannol sydd wedi ei chadw yn y gofrestr asedau er mwyn sicrhau bod cefnogaeth lawn i’r cofnodion cyfrifo.
- Nid oedd yr Awdurdod wedi ateb am ei holl incwm a gwariant yn ei ddatganiadau sylfaenol a arweiniodd at gamddataganiad sylweddol i’r adroddiadau ariannol yn 2015-16 a’r cyfnod cyn hwnnw hefyd.

Rhoddais dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad y cyfrifon wedi ei gwblhau ar 27 Medi 2016.

## Rwyf yn fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at feysydd lle mae effeithiolrwydd y trefniadau hyn eto i gael ei ddangos neu lle y gellid gwneud gwelliannau, pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

O ganlyniad i’r materion a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad bu rhaid inni wneud swm sylweddol o waith ychwanegol, yn arbennig er mwyn cael digon o sicrwydd archwilio dros asedau’r Awdurdod nad ydynt yn rai cyfredol. Oherwydd hynny, codir ffioedd o £15,500 yn ychwanegol at y ffi o £34,500 a amcangyfrifwyd ac a nodwyd yng Nghynllun yr Archwiliad Blynyddol ar gyfer 2015-16. Amcangyfrifir y ffi ar gyfer 2016-17 o fewn paramedrau y raddfa ffioedd ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub, sydd wedi ei hegluro yng *Nghynllun Ffioedd 2016-17* Swyddfa Archwilio Cymru sydd wedi ei gyhoeddi.

Yn gywir



**Mark Jones**
**For and on behalf of the Auditor General for Wales**